# Ymgysylltu â phreswylwyr yn Beacon

Rydym yn ei gwneud yn rhwydd i ddylanwadu ar benderfyniadau a llunio gwasanaethau drwy weithio gyda chi i ddeall yr hyn sydd bwysicaf. Rydym yn ymroddedig i wrando, dysgu o'ch adborth a gweithredu ar eich sylwadau.

**Rydym yn galw hyn yn Addewid Beacon.**



# Addewid Beacon

Drwy wrando, holi a gweithredu ar yr hyn sy'n bwysig i chi, rydym yn gwella gwasanaethau i helpu creu cymunedau llewyrchus, cryfach.

**Bydd yr addewid hwn yn ein helpu i:**



**Wneud gwasanaethau yn well, cyflymach a mwy ymatebol**



**Cyfathrebu'n glir ac yn gyson gyda chi ar faterion pwysig yn gysylltiedig â'ch cartref**



**Annog mwy o bobl i gymryd rhan wrth lunio gwasanaethau drwy ddod â Beacon atoch chi.**



**Cyfaddef ein camgymeriadau, rhannu ein llwyddiannau a bod yn agored i adborth fel y gallwch ymddiried ynom ni.**



**Gwneud yn siŵr y gall llais pawb gael ei glywed drwy ei gwneud yn rhwydd i gymryd rhan.**



**Rhoi mwy o lais i chi mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch.**

# Ein tair egwyddor

## Rhoi Gwybodaeth, Cynnwys, Ymddiried

**Rydym eisiau:**

- Ei gwneud yn rhwydd i chi gael gwybodaeth ar bethau sy'n bwysig chi.
- Eich cynnwys wrth lunio ein gwasanaethau a blaenoriaethau busnes.
- Ymchwilio ffyrdd o ymddiried ynddoch gyda phenderfyniadau mwy tebyg i wariant a gwasanaethau Beacon.

## Cynnwys

**Byddwn yn:**

- Gweithio gyda chi yn gyson i ddeall yr hyn sy'n bwysig i chi.
- Eich cynnwys mewn grwpiau sy'n trafod pynciau tebyg i waith trwsio, rhenti a diogelwch
- Cynnal digwyddiadau blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar sut rydym yn gwneud.

## Rhoi gwybodaeth

**Byddwn yn:**

- Rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf drwy gylchlythyrau, cyfryngau cymdeithasol, hysbysfyrddau a digwyddiadau.
- Gwneud yn siŵr fod gwybodaeth yn rhwydd ei deall.
- Gwneud ein gorau i ddod atoch a bod yn y cymunedau yr ydych yn byw ynddyn nhw

## Ymddiried

**Byddwn yn:**

- Eich cynnwys mewn penderfyniadau am yr hyn a wariwn, pwy a gyflogwn a sut y caiff gwasanaethau eu cyflenwi.
- Eich cynnwys yn sut y byddwn yn adolygu perfformiad gwasanaethau mewnol ac allanol.

# Gwneud Iddo Ddigwydd

**Byddwn yn:**

- Gwrando bob amser i ddeall beth sy'n bwysig i chi.
- Rhannu cynlluniau gyda chi fel ei bod yn rhwydd i gymryd rhan.
- Dweud wrthych am y gwahaniaeth a wnaeth eich sylwadau.

# Dewis pynciau sy'n bwysig i chi

Gallwch ddewis un pwnc neu lawer, yn dibynnu ar eich diddordebau, sgiliau neu chwilfrydedd. Byddwn yn gadael i chi wybod cyn gynted ag ydym angen eich help ar un ohonynt.

**Y pynciau yw:**

- Fforddiadwyedd – rhent a chostau.
- Adeiladu a Diogelwch Tân.
- Cyfathrebu.
- Prosiectau Cymunedol.
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (yn cynnwys y Gymraeg)
- Cartrefi Newydd ac Adfywio.
- Perfformiad a Gwella.
- Recriwtio, Dysgu a Datblygu.
- Gwaith Trwsio a Chynnal a Chadw.
- Profiad Preswylwyr/Gwasanaethau Tai.
- Gofalu am yr Amgylchedd.

# Sganiwch y cod QR yma a chofrestru

- Dewiswch y pynciau y mae gennych ddiddordeb ynddyn nhw
- Byddwn yn rhoi gwybod i chi am gyfleoedd sy'n cyfateb â'ch diddordebau.

beacon